Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

4 Medi, 2025

TEITL: Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr
Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn dilyn ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar gyfer y Cytundeb Cyflawni (CC) i'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) i Ogledd Cymru. Mae'n tynnu sylw at y broses ymgynghori a ddilynwyd, unrhyw sylwadau a dderbyniwyd (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad) a'r camau nesaf sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Ystyried y Cytundeb Cyflawni drafft yn dilyn ymgynghori, ac argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei fod yn barod i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar benderfyniad cyllid yr CDS.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol sydd yn gyfrifol am baratoi'r Cytundeb Cyflawni drafft. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau cydlynu a chynllunio ynghylch pob cam tuag at gyflawni'r CDS.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cafodd aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol eu briffio ar y Cytundeb Cyflawni drafft CDS mewn sesiwn wybodaeth anffurfiol i'r Aelodau a gynhaliwyd ddydd Gwener, 27 Mehefin, 2025. Cafodd yr Aelodau wybodaeth ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni drafft at ddibenion ei gyhoeddi ar ôl ymgynghori, yn unol â gofynion rheoliadau'r CDS. Cynghorwyd yr aelodau hefyd ar sefyllfa ariannu'r CDS a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael i ariannu'r CDS yn llawn. Mae'r adborth o'r sesiwn wybodaeth hon wedi'i gasglu ynghyd, a daethpwyd ag o i'r cyfarfod hwn i'w ystyried yn ffurfiol. Mae'r sefyllfa ynglŷn â chyllid a'r opsiynau yn destun papur ar wahân a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn.

4.2. Ystyriwyd y Cytundeb Cyflawni drafft a'r camau gweithdrefnol ar gyfer ymgynghori (nad yw'n statudol) gan y CBC yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf, 2025 – dolen i'r adroddiad.

4.3. Dechreuodd y broses ymgynghori yn dilyn cyfarfod y CBC ar ddydd Gwener, 18 Gorffennaf a bydd yn parhau tan ddydd Gwener, 29 Awst, 2025. Mae hyn yn caniatáu cyfnod o chwe wythnos ar gyfer ymgynghori. Cyhoeddwyd y ddogfen ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru, ynghyd â gwybodaeth gyd-destunol am bwrpas y ddogfen a sut i wneud sylwadau arni. Dyma ddolen i ymgynghoriad y Cytundeb Cyflawni ar y wefan: Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllunio Strategol. Bu'r ymgynghoriad hefyd gael ei hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol.

4.4. Mae Rheoliadau y CDS yn nodi mathau o randdeiliaid y dylai'r CBC geisio ymgysylltu â nhw fel rhan o'r broses CDS gaiff eu diffinio fel naill ai 'Ymgyngoreion Penodol' neu 'Ymgyngoreion Cyffredinol'. O ran Ymgyngoreion Penodol, mae'r rheoliadau'n rhagnodol o ran pwy ddylai'r rhain gynnwys ac mae'r CBC wedi llunio rhestr gyswllt sy'n cynnwys yr holl rai y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau, a chyrff ychwanegol y mae'r CBC yn teimlo sy'n berthnasol i'w cynnwys. Mae'r Ymgyngoreion Penodol yn cynnwys pob Aelod o Awdurdodau Lleol cyfansoddol y CBC, yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn ardal y CBC, ymgymerwyr statudol fel cwmnïau Dŵr a Phŵer, Cyfoeth Naturiol Cymru, adrannau'r Llywodraeth a swyddogion Awdurdodau Lleol. Mae'r grŵp hwn wedi'i ymestyn i ymgorffori Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol, ac ystod o gydweithwyr corfforaethol allweddol y mae'r CBC eisoes yn ymgysylltu â nhw.

4.5. Mae rheoliadau'r CDS yn llawer llai rhagnodol mewn perthynas ag Ymgyngoreion Cyffredinol, gan gyfeirio yn unig at gategorïau o ymgyngoreion y dylai'r CBC geisio ymgysylltu â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol i gymunedau, grwpiau crefyddol amrywiol, grwpiau y mae eu prif swyddogaeth yn ymwneud ag iaith a diwylliant, grwpiau busnes, a'r rhai sy'n ymwneud ag adeiladu a datblygu. Lluniwyd rhestr gynhwysfawr o gysylltiadau o'r rhestrau a ddefnyddiwyd eisoes gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru fel rhan o'u prosesau Cynllun Datblygu Lleol, a dyma a ffurfiodd y sail i'r e-bost gynhwysfawr anfonwyd ar 18 Gorffennaf i godi ymwybyddiaeth am broses y CDS y Cytundeb Cyflawni ac i roi cyfle i fod yn rhan o gamau dilynol proses y CDS.

4.6. Mae cyfle hefyd i unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni, ac mae hyn yn cael ei wneud yn glir fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir ar y wefan. Yn amlwg, wrth i'r CDS fynd rhagddo, bydd ymgynghoriadau cyhoeddus penodol yn cael eu cynnal ar gamau allweddol yn y broses, fel y Strategaeth a Ffafrir a'r CDS wedi'i Adneuo.

5. CYNNYDD YN Y GWAITH YMGYNGHORI

5.1. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r ymgynghoriad yn ei wythnos olaf (chweched). O ystyried natur weithdrefnol y ddogfen Cytundeb Cyflawni, ni ragwelir y bydd ymateb sylweddol, a dyma'r profiad cyson gydag awdurdodau lleol pan fyddant wedi cyhoeddi eu Cytundebau Cyflawni CDLl. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod y CBC yn agored o'r cychwyn cyntaf wrth baratoi'r CDS a rhan bwysig o'r ymgynghoriad hwn yw codi ymwybyddiaeth bod y CBC wedi dechrau'r broses CDS a bod cyfle i ystod eang o randdeiliaid fod yn rhan o'r broses wrth iddi fynd rhagddi.

5.2. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ymatebion a dderbyniwyd hyd yma, gan mai dim ond tri sylw penodol fel y cyfryw sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cytundeb Cyflawni, ac mae'r rhain yn cael eu dangos yn ***Atodiad 1*** ynghyd â'r ymatebion i'r sylwadau hynny. Nid oedd y sylwadau hyn yn ceisio diwygio'r CC ond roeddent eisiau eglurhad ar rai pwyntiau allweddol.

5.3. Bu lefel sylweddol o gydnabyddiaeth o'r cyswllt y mae'r CBC wedi'i wneud â rhanddeiliaid gan hyrwyddo'r cyfle i fod yn rhan o'r broses CDS, ac mae'r rhain i gyd wedi bod yn gadarnhaol wrth ddiolch i'r CBC am y cyfle. Mae hefyd wedi helpu i egluro a diweddaru manylion cyswllt o'r rhestrau a ddarparwyd gan yr Awdurdodau Lleol, rhai ohonynt yn dyddio'n ôl sawl blwyddyn

erbyn hyn. Bydd hyn yn helpu i resymoli'r rhestrau cyswllt yn gyffredinol ar ôl cwblhau'r Cytundeb Cyflawni a'i baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

6. CAMAU NESAF

6.1. Gan fod yn rhaid paratoi'r adroddiad hwn cyn diwedd y cyfnod ymgynghori, oherwydd gwyliau mis Awst ac amseroedd arweiniol hirach i ailddechrau pwyllgorau CBC ym mis Medi, mi fydd unrhyw sylwadau pellach a dderbynnir, **ynghyd ag unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau**, yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod ar y 4ydd o Fedi. Er na ddisgwylir y bydd unrhyw beth sylfaenol yn codi, mae'r tuedd fel yr arfer bod sylwadau yn cael eu derbyn ar ddiwedd y cyfnodau ymgynghori, er bod chwe wythnos wedi'i ganiatáu ar gyfer sylwadau.

6.2. Yn amodol ar gael unrhyw sylwadau pellach, gofynnir i'r is-bwyllgor gadarnhau bod y Cytundeb Cyflawni yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac argymell hyn i gyfarfod nesaf o'r CBC. Mae'r gallu i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth hefyd yn amodol ar y CBC yn penderfynu sut y bydd y CDS yn cael ei ariannu'n llawn (gweler adroddiad ar wahân ar yr agenda).

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru. O ran cyllideb bresennol y CBC ar gyfer 2025-26 sy'n ymwneud â'r CDS byddai angen cynyddu'r gyllideb hon 50% o'r lefel bresennol bob blwyddyn, dros gyfnod cynhyrchu'r cynllun sef 2026-2031, i gwrdd â chostau llawn yr CDS. Mae asesiad manylach yn rhan o adroddiad pellach ar yr agenda yma.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Sylwadau ac Ymatebion Penodol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae yna gyfres o benderfyniadau allweddol sy'n arwain yn y pen draw at fabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol. Er yn ddogfen dechnegol mewn sawl agwedd, mae cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn benderfyniad arwyddocaol. Mae'n nodi proses arfaethedig ac ymrwymiad y CBC i gyflawni'r Cynllun. Mae'r argymhelliad yn tynnu sylw at y mater o ariannu proses y Cynllun a'r angen i'r

CBC sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ddatrys fel rhagamod ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad cysylltiedig ar gyllid yn nodi'r materion allweddol sy'n dal angen sylw a bydd angen i'r CBC eu hystyried fel rhan o'i safbwynt cyffredinol ar y gyllideb a'i gynrychioliadau at Lywodraeth Cymru."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni yn gam allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol.

Bydd aelodau'n nodi bod cyllido'r CDS yn eitem ar wahân ar agenda'r cyfarfod hwn. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae cyllideb ar waith i ariannu'r gwaith hwn yn 2025/26, a bydd rhaid cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2026/27 cyn diwedd Ionawr 2026."